Cyllideb 2003



Adeiladu Prydain o gryfder economaidd a chyfiawnder cymdeithasol

Ebrill 2003

TRYSORLYS EM

Taflen Gryno

Cyllideb 2003

Adeiladu Prydain o gryfder economaidd a chyfiawnder cymdeithasol

Nod y Llywodraeth yw cyflawni lefelau twf a chyflogaeth uchel a sefydlog, gyda chyfleoedd a safonau byw gwell i bawb.

Noda Cyllideb 2003 y ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio i gyflawni'r nod hwn, gan sicrhau y gall y DU gystadlu'n effeithiol mewn economi fyd-eang intregredig ac elwa pan fydd yr adferiad mewn twf byd-eang yn dechrau. Disgrifia'r Cyllideb sut y bydd y Llywodraeth yn adeiladu ar ei diwygiadau blaenorol i greu economi cryfach a mwy blaengar, sicrhau cyflogaeth lawn, dod â thlodi plant i ben a mynd i'r afael â thlodi pensiynwyr, sefydlu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf, ac ateb yr her fyd-eang o newid yn yr hinsawdd. Ymhlith y cyhoeddiadau allweddol mae:

- rhagolwg wedi ei ddiweddaru, sy'n dangos bod yr economi ar y trywydd iawn i gynnal sefydlogrwydd a thwf a bod arian cyhoeddus yn parhau yn gadarn;
- Cronfa Ymddiriedolaeth Plant newydd sy'n rhoi £250 i bob plentyn newydd anedig, neu £500 i'r tlotaf, gan sicrhau bod gan bob plentyn arian yn y banc pan fydd yn cyrraedd 18 oed;
- £100 yn ychwanegol at y taliadau tanwydd gaeaf, i bensiynwyr 80 oed neu'n hŷn, a hawliadau pensiwn hwy i bob pensiynwr mewn ysbyty;
- pecyn o fesurau i helpu rhieni unigol a phartneriaid hawlwyr budd-daliadau i ddod o hyd i waith, drwy'r Fargen Newydd a'r Ganolfan Byd Gwaith;
- diwygiadau i Fudd-dal Tai i wella manteision ariannol gweithio, ei gwneud yn haws i bobl symud i dderbyn swyddi, a symleiddio'r broses hawlio;
- cynigion i leihau biwrocratiaeth, symleiddio treth a gwella'r cyfle i fusnesau bach sy'n ceisio datblygu a thyfu gael arian;
- cynigion newydd i wella'r cyflenwad o dai a symleiddio penderfyniadau cynllunio;
- cymryd camau i fynd i'r afael â thwyll treth ac osgoi treth i ddiogelu refeniw a sicrhau bod pawb yn talu eu cyfran deg hwy o dreth; a
- cynnydd gohiriedig, yn unol â chwyddiant, yn y prif dollau tanwydd ffordd o 1 Hydref 2003, a tholl ecseis cerbyd is ar gyfer y cerbydau glanaf.

Cynnal sefydlogrwydd economaidd

Mae economi'r byd wedi parhau i wynebu cyfnod anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r ansicrwydd, yn arbennig, ynghylch y gwrthdaro yn Irac, yn effeithio ar fusnesau a buddsoddiadau ledled y byd. O ganlyniad, mae'r twf byd-eang, ac yn enwedig twf yn ardal yr Ewro, yn wan o hyd, gyda goblygiadau i economi'r DU. Fodd bynnag, mae diwygiadau economaidd y Llywodraeth wedi helpu i sicrhau bod yr economi yn parhau mewn sefyllfa dda i gynnal twf cyson a sefydlog ac i elwa pan fydd yr adferiad byd-eang yn dechrau. Dengys y Gyllideb:

- bod disgwyl i'r **economi** dyfu 2 i 2½ y cant eleni wrth i economi'r byd adfer, gan godi i 3 i 3½ yn 2004 a 2005;
- bod disgwyl i **chwyddiant** aros yn isel ac yn agos at darged y Llywodraeth; a
- bod **arian cyhoeddus** yn parhau'n gadarn a bod y Llywodraeth ar y trywydd cywir i fodloni ei rheolau cyllido llym, gyda benthyciadau o dan reolaeth, sef £27 biliwn eleni a dyledion yn is nag y maent mewn unrhyw un o economïau diwydiannol mawr eraill y G7.

Cynhyrchiant a mentergarwch mewn economi hyblyg

Mae'r allbwn a gynhyrchwyd fesul gweithiwr – cynhyrchiant – yn hanesyddol wedi bod yn is yn y DU nag yn yr economïau mawr eraill. Bydd cau'r bwlch cynhyrchiant hwn yn helpu i gyflawni ffyniant economaidd gwell a chodi safonau byw mewn blynyddoedd i ddod. Yn yr economi fyd-eang fodern, mae twf cynhyrchiant cyflymach yn galw am fusnesau hyblyg a deinamig a gweithlu medrus iawn. Mae Cyllideb 2003 yn cyhoeddi mesurau newydd i hybu mentergarwch a sgiliau, megis:

Cynhyrchiant – allbwn fesul gweithiwr



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol / Trysorlys EM

- **cynigion newydd i helpu cwmnïau bach i godi'r arian sydd ei angen arnynt** i ymsefydlu, datblygu a thyfu;
- **diwygiadau i leihau biwrocratiaeth a symleiddio treth** i fusnesau bach, er mwyn helpu i chwalu'r rhwystrau i lwyddiant busnesau;

- **cynigion newydd i wella'r cyflenwad o dai** a symleiddio penderfyniadau cynllunio;
- **£16 miliwn i ariannu Ymgynghorwyr Menter** i weithio ochr yn ochr â phenaethiaid mewn ysgolion difreintiedig a rhoi profiad o fusnes i ddisgyblion;
- **gwella cymhelliannau treth i hybu ymchwil a datblygiad** a chael cwmnïau bach i fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth; ac
- **ymestyn rhaglenni peilot presennol i wella mynediad i hyfforddiant** ymhlith pobl heb lawer o sgiliau a diwygiadau newydd i hybu ymfudiad fel ffynhonnell sgiliau a llafur yn economi'r DU.

Cyflogaeth i bawb

Mae'r Llywodraeth am hyrwyddo marchnad lafur ddeinamig a hyblyg sy'n paratoi pobl i addasu i amodau economaidd newidiol ac sy'n darparu cyflogaeth lawn ledled y wlad.

Mae'r farchnad lafur wedi cyflawni'n dda dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy o bobl yn gweithio yn awr nag erioed o'r blaen ac mae diweithdra ar ei isaf ers cenhedlaeth. Mae'r Fargen Newydd wedi helpu bron 415,000 o bobl ifanc i mewn i waith ac estynnwyd y cymorth i grwpiau eraill fel rhieni unigol, pobl hŷn a'r rheini sydd ag anableddau.

Nifer y bobl mewn gwaith



Ffynhonnell: Arolwg y Gweithlu

Bydd y Credyd Treth Gwaith, a delir o'r mis hwn, yn helpu i wneud i waith dalu i bobl ar incwm isel, sydd â phlant neu heb blant. Ynghyd â'r lsafswm Cyflog Cenedlaethol, sy'n codi i £4.50 yr awr o Hydref 2003, mae'r Credyd Treth Gwaith yn helpu i gyflawni marchnad lafur fwy hyblyg, tra'n sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd o ran incwm gweithwyr. Mae Cyllideb 2003 yn:

- **cynnig cymorth ychwanegol i helpu pobl i chwilio am waith** yn ystod y chwe mis cyntaf pan fyddant yn ddi-waith;

- **darparu hyblygrwydd newydd i ddosbarthau'r Ganolfan Byd Gwaith** ymateb i amodau'r farchnad lafur leol a helpu pobl i symud i mewn i waith yn gyflym;
- **diwygio Budd-dal Tai** i wella manteision ariannol gweithio a sicrhau mwy o ddibynadwyedd yn y gwasanaeth i hawlwyr;
- **gwella cymorth i rieni unigol**, gyda rhaglenni peilot o bremiwm chwilio am waith newydd o £20 yr wythnos i'r rheini sydd wrthi'n chwilio am waith;
- **darparu cymorth ychwanegol i bobl o leiafrifoedd ethnig**, gydag ymgynghorwyr chwiliad gwaith arbenigol mewn ardaloedd sydd â nifer uchel o bobl o leiafrifoedd ethnig; a
- **lansio pecyn gwell o gymorth i bartneriaid** hawlwyr budd-daliadau i leihau nifer y cartrefi di-waith yn y wlad.

Adeiladu cymdeithas decach

Rhaid i economi hyblyg a deinamig fynd law yn llaw â chymdeithas decach fel bod gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i ddileu tlodi plant a mynd i'r afael â thlodi pensiynwyr, gan ddarparu cymorth i deuluoedd â phlant a sicrhau diogelwch i bawb yn eu henaint. Mae hefyd yn creu system dreth fodern a theg, sy'n codi digon o refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n sicrhau bod pawb yn talu eu cyfran deg hwy o dreth.

Mae'r Credyd Treth Plant, a delir o'r mis hwn, yn darparu ffrwd gyson o incwm i helpu teuluoedd â phlant a mynd i'r afael â thlodi plant, a bydd tua 5¾ miliwn o deuluoedd yn elwa ar hyn. O fis Hydref 2003, bydd y Credyd Pensiwn newydd yn darparu cymorth ychwanegol hefyd i bensiynwyr ar incwm isel a chymedrol ac yn gwobrwyo'r rheini sydd wedi cynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Mae Cyllideb 2003 yn:

- **lansio Cronfa Ymddiriedolaeth Plant newydd** gan roi £250 i bob plentyn newydd anedig, yn codi i £500 ar gyfer y traean tlotaf o deuluoedd, er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn arian yn y banc i'w wario pan fydd yn cyrraedd 18 oed;
- **darparu £100 yn ychwanegol at y taliad tanwydd gaeaf o £200**, ar gyfer cartrefi lle mae pensiynwr 80 oed neu'n hŷn yn byw, drwy gydol y Senedd hon;
- **ymestyn, i 52 wythnos, y cyfnod pan fydd pob pensiynwr mewn ysbyty yn cael ei bensiwn y wladwriaeth yn llawn**;
- **tynhau'r rheolau o ran twyll treth ac achosion o osgoi treth** i ddiogelu refeniw y llywodraeth a gwella tegwch drwy sicrhau nad yw'r baich treth yn disgyn yn annheg ar drethdalwyr sy'n talu eu cyfran lawn.

- **moderneiddio'r doll stamp**, gan fynd i'r afael ag achosion o osgoi talu'r doll stamp ar eiddo masnachol a lleihau gwyriadau yn y tâl a godir ar brydlesi;
- codi **tollau** ar dybaco, cwrw a gwin yn unol â chwyddiant, a rhewi'r doll ar wirodydd; a
- **diddymu'r doll bingo** a chodi treth newydd ar elw gros cwmnïau bingo yn ei lle.

Gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel

Mae'r Llywodraeth yn darparu buddsoddiadau newydd i foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus Prydain. Y llynedd, nododd gynlluniau ar gyfer £63 biliwn ychwanegol o wariant ar wasanaethau cyhoeddus erbyn 2005-06. Bydd mwy na 75 y cant o hyn yn cael ei wario ar flaenoriaethau'r Llywodraeth sef iechyd, addysg, trafnidiaeth, tai a'r frwydr yn erbyn troseddau. Mae Cyllideb 2003 yn disgrifio sut y bydd y cyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol a gyhoeddwyd y llynedd, ac a delir o'r mis hwn, yn ariannu GIG gwell:

Gwariant iechyd y DU



Ffynhonnell: Trysorlys EM

- bydd gwariant y DU ar iechyd yn codi 7.2 y cant y flwyddyn mewn termau real hyd at 2007-08, gan roi'r GIG ar sail ariannol hirdymor gadarn;
- bydd cynnydd sylweddol o ran buddsoddi mewn TG, adeiladau ac offer, gan gynnwys y rhaglen adeiladu ysbytai fwyaf erioed; a
- bydd diwygiadau yn sicrhau bod y GIG yn darparu gwasanaethau o safon, gyda rheolydd annibynnol newydd i arolygu a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad y GIG.

Mae'r Llywodraeth yn benderfynol y dylai pob punt o wariant cyhoeddus roi'r elw gorau posibl o ran gwasanaethau o safon a bod yr adnoddau felly yn cyfateb â'r diwygiadau. Mae Cyllideb 2003 yn:

- **darparu £332 miliwn ar gyfer gwaith gwrth-derfysgaeth** gan y gwasanaethau brys, ar ben y £3 biliwn i dalu am ymrwymiadau milwrol yn Irac;

- **hyrwyddo cydbwysedd gwell o weithgaredd economaidd ar draws y rhanbarthau**, gan gymryd camau i sicrhau bod cyflogau'r sector cyhoeddus yn adlewyrchu ffactorau rhanbarthol; a
- **gwella tryloywder i'r cyhoedd**, gydag adroddiad newydd rheolaidd ar wefan y Trysorlys o berfformiad adrannau'r llywodraeth yn erbyn eu targedau ar gyfer gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

Diogelu'r amgylchedd

Rhaid cyflawni twf economaidd a chyfiawnder cymdeithasol tra'n diogelu'r amgylchedd er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau i ddod. I ddiogelu a gwella'r amgylchedd, mae Cyllideb 2003 yn:

- **oedi cyn codi'r prif dollau tanwydd ffordd**, yn unol â chwyddiant, tan 1 Hydref 2003 oherwydd prisiau olew uchel ac anwadal yn ddiweddar;
- **cyflwyno cyfradd toll ecseis cerbyd (VED) newydd is** ar gyfer y cerbydau glanaf ac yn cynyddu VED ceir £5;
- **cyflwyno cymhelliannau treth newydd** i annog busnesau i fuddsoddi mewn technolegau sy'n arbed ynni ac i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o dd̂wr; a
- **hyrwyddo ffyrdd o waredu gwastraff sy'n ystyriol o'r amgylchedd**, fel ailgylchu, drwy gynyddu'r dreth a delir gan fusnesau sy'n gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi a defnyddio'r refeniw treth ychwanegol i helpu busnesau i reoli'r gwastraff a gynhyrchir ganddynt yn well.

Incwm cartref

- O'i gymharu â'r llynedd, bydd teulu lle mae un yn ennill cyflog cymedrol o £21,400 a chanddynt ddau o blant, ar y cyfan, bron £260 y flwyddyn yn well eu byd o ganlyniad i gredydau treth newydd, hyd yn oed ar ôl talu mwy tuag at y GIG o ganlyniad i'r cynnydd o 1 y cant mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a gyhoeddwyd y llynedd ac a delir o'r mis hwn.
- O ganlyniad i'r holl ddiwygiadau treth a budd-daliadau ers 1997, bydd teuluoedd â phlant, o Ebrill 2003, ar gyfartaledd, £1,200 y flwyddyn yn well eu byd, tra bydd y rheini yn y pumed tlotaf o'r boblogaeth, ar gyfartaledd, £2,500 y flwyddyn yn well eu byd mewn termau real. Bydd teulu lle mae un yn ennill cyflog ar gyfartaledd o £28,600 a chanddynt ddau o blant, £275 y flwyddyn yn well eu byd mewn termau real.

Lle y caiff arian trethdalwyr ei wario

Disgwylir i gyfanswm y gwariant cyhoeddus fod tua £456 biliwn eleni, sef tua £7,700 am bob dyn, merch a phlentyn yn y DU. Disgwylir iddo godi i £485 biliwn yn 2004-05 ac i £517 biliwn yn 2005-06.

Lle y caiff arian trethdalwyr ei wario

Cyfanswm y gwariant rheoledig



[1] Yn cynnwys gwariant ar weinyddiaeth ganolog, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, cydweithrediad a datblygiad rhyngwladol a phensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus ynghyd â gwariant nas dyrannwyd eto a rhai addasiadau cyfrifo.
[2] Diogelwch cymdeithasol yn cynnwys nawdd cymdeithasol ynghyd â thaliadau credyd treth yn fwy nag atebolrwydd treth unigolyn
Ffynhonnell: Trysorlys EM, 2003-04 yn agos at y rhagamcanion. Efallai na fydd y ffigurau yn cyfansymio o ganlyniad i dalgrynnu.

O ble y daw'r trethi

Cyfanswm y derbyniadau - £428 biliwn



[1] Yn cynnwys trethi cyfalaf, tollau stamp, tollau ecseis cerbyd a rhai derbyniadau treth a di-dreth eraill (e.e. llog a difidendau).
Ffynhonnell: Trysorlys EM, rhagamcanion 2003-04. Efallai na fydd y symiau'n cyfansymio o ganlyniad i dalgrynnu.

Er mwyn archebu copïau ychwanegol o'r daflen hon neu gael fformat arall, ffoniwch
020 7270 4558

Am ragor o wybodaeth am Gyllideb 2003, ewch i wefan y Trysorlys yn
www.hm-treasury.gov.uk